



Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CAERDYDD  
CF99 1SN

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 23) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45F(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Maent yn dod i rym ar 20 Rhagfyr 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 3 Chwefror 2022 er mwyn iddo barhau i fod yn effeithiol. Yn yr amgylchiadau hyn rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad. Gallai fod o gymorth ichi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r eitem hon o is-ddeddfwriaeth yn y cyfarfod llawn ar 11 Ionawr 2022.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.